***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 566

## Rheoliadau Pontio o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2022

**Cyhoeddi Cynlluniau Pontio a darparu copïau**

**11.**—(1) Rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion y mae Cynllun Pontio neu Ddatganiad yn ymwneud â hwy ei roi ar gael i'r ysgolion hynny edrych arno.

(2) Rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol uwchradd ddarparu copi o'r Cynllun Pontio (neu'r cynllun diwygiedig) i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo neu, os cânt eu cynnal gan ddau neu ragor o awdurdodau lleol gwahanol, i bob un ohonynt.